



## Polisi Rheoli Llau Pen

Bydd yr ysgol yn gweithredu'r canllawiau fel a nodir isod i geisio, hyd eithaf ei gallu, i reoli'r broblem o lau pen. Cydnabyddir mai ffynhonnell llau pen yw'r cartref a'r teulu, nid yr ysgol. Delir llawer o'r heintiau oddi wrth y teulu agos a chyfeillion - nid o ysgolion.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth corff llywodraethol yr ysgol yn gweithredu'r canllawiau isod fel a ganlyn :-

- 1.1 Bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth addysgol am lau pen allan yn rheolaidd (e.e. ar ddechrau bob blwyddyn ysgol fel rhan o becyn sy'n cynnwys gwybodaeth am faterion eraill) a hefyd anfonir nodyn i hysbysu'r rhieni pan gyfyd achosion yn yr ysgol.
- 1.2 Os gwelir bod gan ddisgybl yn yr ysgol leuen fyw, sy'n symud - hysbysir rhiant y plentyn, yn gyfrinachol, fel y gallant drin yr haint. Darperir gwybodaeth ddiweddaraf i'r rhiant a'u cynghori i fynd â'r plentyn at y meddyg teulu neu i'r fferyllfa leol am driniaeth.
- 1.3 Os yw'r broblem yn parhau'n gyffredinol ar ôl 4 wythnos gall y pennaeth drefnu cyfarfod i'r rhieni yn gyffredinol gyda'r nyrs ysgol.
- 1.4 Os yw'r broblem yn parhau gyda'r un plant yn yr ysgol gall y pennaeth ofyn i'r nyrs ysgol asesu'r sefyllfa gan edrych ar y dosbarthiadau sydd wedi eu heffeithio'n unig.
- 1:5 Ni fydd yr ysgol yn gwahardd disgybl gyda llau pen o'r ysgol ond gofynnir am gydweithrediad y rhieni i gadw'r plentyn / plant adref nes fydd y llau wedi eu trin yn llwyddiannus. Yr unig eithriad fydd pan fo cario llau pen yn broblem barhaus ac yn rhan o broblem gyda hylendid y plentyn. Yn yr achosion hyn bydd y plentyn wedyn yn cael ei wahardd o dan ddarpariaeth y Ddeddf Addysg nes cwblheir rheolaeth o'r broblem hylendid, gan gynnwys cael gwared o'r llau pen.
- 1:6 Awgrymir fod y plant sydd â gwalltiau hir yn ei glymu i fyny tra'n yr ysgol.

Mabwysiadu: Chwefror 2014

Cadeirydd: \_\_\_\_\_

Pennaeth: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Dyddiad adolygu y polisi: \_\_\_\_\_